Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Hannah Blythyn AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd
Minister for Environment

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-LG/2052/18

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Gorffennaf 2018

Annwyl Mike

Diolch ichi am Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar gynnydd Llywodraeth Cymru i liniaru newid hinsawdd.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Yn gywir

Lesley

Hannah Blythyn

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Hannah Blythyn AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd
Minister for Environment

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Cynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid hinsawdd.

Gorffennaf 2018

Argymhelliad 1

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu manylion am y camau penodol y mae wedi'u cymryd ac y bydd yn eu cymryd i wella ymgysylltiad a chydweithio ar draws y Cabinet mewn perthynas â lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.

Ymateb: Derbyn.

Yn 2017 sefydlodd yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Gweinidog yr Amgylchedd Materion Gwledig Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddatgarboneiddio er mwyn sicrhau ein bod yn cydweithio ar draws y Cabinet i gyflawni'r agenda datgarboneiddio bwysig. Estynodd y yr Ysgrifennydd y Cabinet wahoddiad i ei chydweithwyr yn y Cabinet (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Gweinidog yr Amgylchedd a'r Gweinidog Tai ac Adfywio), sydd â'r ysgogwyr mwyaf ac sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ran cyflawni'r broses o bontio i economi carbon isel, i ymuno â'r grŵp hwn.

Ers hynny, mae'r grŵp wedi cyfarfod sawl gwaith ac wedi cynhyrchu ystod o adroddiadau ar gyfer y Cabinet. O ganlyniad, ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru dargedau lleihau allyriadau dros dro a'n dwy gyllideb garbon gyntaf. Lansiwyd ymgynghoriad ym mis Gorffennaf a oedd yn canolbwyntio ar sut i gyflawni ein llwybr carbon isel i 2030 a sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'n nodau llesiant.

O ystyried pwysigrwydd y mater hwn, a maint yr her a wynebwn, ar 10 Gorffennaf 2018 cytunodd y Cabinet i ychwanegu datgarboneiddio fel chweched maes blaenoriaeth yn ffyniant i bawb ar gyfer gwaith trawslywodraethol. Cafodd pum maes blaenoriaeth cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio ar draws y Llywodraeth eu nodi yn y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb ym mis Medi 2017.

O ganlyniad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, rydym eisoes yn gweithio gyda'n gilydd mewn meysydd megis alinio'r cylch cyllidebu carbon ac ariannol, datgarboneiddio'r sector cyhoeddus ac ysgogi'r defnydd o geir trydan yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet, mae strwythur llywodraethu helaeth ar draws y llywodraeth i ysgogi camau gweithredu ar yr agenda hon, gyda Bwrdd Rhaglen Lefel Cyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru a nifer o weithgorau trawslywodraethol wedi'u sefydlu er mwyn ystyried a datblygu camau gweithredu polisi i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nod hirdymor gyda'n gilydd.

Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan y nodau Llesiant a'r Ffyrdd o Weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ein targed hirdymor, o gydweithio ac ymwneud â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol, i sicrhau ein bod yn integreiddio Datgarboneiddio yn y ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn atal effeithiau pellach yn sgil newid yn yr hinsawdd.

Credwn mai'r elfen hollbwysig er mwyn cyrraedd ein targed yw parhad gwaith trawslywodraethol a pharhau i gynnwys fy nghydweithwyr yn y Cabinet a'u swyddogion yn y gwaith o gyflawni'r agenda hon. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod ein camau gweithredu i liniaru newid yn yr hinsawdd yn gwella iechyd, a lles pobl Cymru ac yn cyflawni'r potensial o ran creu busnesau, swyddi a chyfleoedd hamdden cynaliadwy drwy hwyluso'r trosglwyddiad i economi carbon isel.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad yn y Cynulliad a chyda rhanddeiliaid allanol ar y dull a awgrymir ganddi ar gyfer gwaith craffu'r Cynulliad ar gyllidebau carbon.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn destun proses adolygu ynglŷn â'r weithdrefn graffu ar gyfer pennu ein cyllidebau carbon drwy ddatblygu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O ganlyniad i broses y Cynulliad, mae'r Ddeddf wedi cyflwyno gofyniad i Weinidogion Cymru nodi ein cyllidebau carbon mewn rheoliadau.

Mae'r is-ddeddfwriaeth yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol ac felly mae eisoes yn destun proses graffu gan y Cynulliad. Cafwyd proses o graffu ar yr is-ddeddfwriaeth ei hun, drwy gyfrwng y Cyfarfod Llawn ac yn y pwyllgor pan oedd y Bil ar ffurf drafft.

Yn ogystal â phroses Graffu'r Cynulliad, rydym hefyd wedi ystyried cyngor gan ein Corff Cynghori arbenigol annibynnol, Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC), sydd hefyd yn darparu cyngor i Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Goblygiadau ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hymgysylltiad hyd yma â rhanddeiliaid allanol wrth ddatblygu ei chyllidebau carbon a'i chynlluniau ar gyfer ymgysylltu yn y dyfodol.

Ymateb. Derbyn.

Mae'r nodau Llesiant a'r Ffyrdd o Weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn tywys ein Rhaglen. Mae cydweithio a chyfranogi wedi bod yn elfennau hollbwysig drwy gydol y broses. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae rhanddeiliaid wedi bod yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth a deall y cyd-destun Cymreig, sydd wedi bod yn sail i'n penderfyniadau ar ein fframwaith deddfwriaethol.

Mae tair prif ran i'n gwaith o ddatblygu ein fframwaith cyllidebu, sy'n nodi:

- sut y byddwn yn rhoi cyfrif am ein hallyriadau yng Nghymru;
- y llwybr y byddwn yn ei ddilyn drwy ein targedau dros dro a'n cyllidebau carbon;
- y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd drwy ein Cynllun Cyflawni Carbon Isel.

Wrth ddatblygu ein fframwaith cyfrifo a phennu ein targedau dros dro mae'n rhaid inni ystyried cyngor gan ein corff cynghori arbenigol, annibynnol, sef UKCCC, yn ogystal â nifer o ddarnau ehangach o dystiolaeth.

Er mwyn gallu targedu'r rhanddeiliaid arbenigol sydd â diddordeb ar draws nifer gwahanol o sectorau yng Nghymru, mae'r UKCCC wedi cyhoeddu dwy Alwad am Dystiolaeth ac rydym wedi cynnal tri digwyddiad ar y cyd lle y cyflwynodd yr UKCCC ei ganfyddiadau ac annog rhanddeiliaid i ymateb iddynt. Cafwyd presenoldeb da yn y digwyddiadau, o ystyried y natur dechnegol ac roeddent yn cynnwys cynrychiolwyr o ddiwydiant, byd busnes, y trydydd sector, y sector cyhoeddus, y byd academaidd a chymdeithas sifil.

Yn ogystal, defnyddiwyd deunyddiau a chynhyrchion cyfathrebu ehangach hefyd megis ffeithluniau a bwletinau rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid. Rydym hefyd wedi cynnwys pobl ifanc drwy lansio cystadleuaeth fideo drwy'r rhwydwaith Eco ysgolion, er mwyn gofyn barn bobl ifanc ar eu disgwyliadau hwy o Gymru yn 2050.

Mae fy swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i sicrhau ein bod yn ymgorffori'r ffyrdd o weithio ac yn cynnal cyfarfodydd gyda'r partïon sydd â diddordeb gan gynnwys byd busnes, diwydiant, y sector cyhoeddus, y trydydd sector a chymdeithas sifil er mwyn sicrhau bod safbwyntiau rhanddeiliaid gwahanol yn cael eu clywed a'u bod yn cael eu hysbysu ynghylch y cynnydd diweddaraf.

O ran y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i ddatgarboneiddio Cymru, ni fydd camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn unig yn ddigon a bydd angen i eraill weithredu – yn unigolion, sefydliadau a busnesau. Y camau gweithredu a gymerwn gyda'n gilydd i gyflawni'r cyllidebau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar sefydliadau a chymdeithasau yng Nghymru.

Rydym eisiau sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle i ddweud wrthym sut y bydd ein camau gweithredu arfaethedig yn y dyfodol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt hwy a pham. Gyda hyn mewn cof, y mis hwn (Gorffennaf) byddwn yn lansio ein hymgynghoriad '*Cyflawni ein llwybr carbon isel i 2030'* sy'n archwilio'r syniadau cynnar ar gyfer camau gweithredu i gyflawni datgarboneiddio hyd at 2030.

Cynhyrchwyd rhai o'r syniadau hyn gyda chyfranogiad rhanddeiliaid. Mae eu cyfranogiad wedi helpu i ddylanwadu ar ein syniadau.

Byddwn yn cynnal gweithdai ac yn mynychu digwyddiadau allweddol yn ystod y cyfnod hwn, ochr yn ochr â pharhau i gynnwys aelodau'r cyhoedd mewn digwyddiadau penodol drwy'r flwyddyn. Er ein bod o'r farn bod ymgynghoriadau yn ddull pwerus i ysgogi cyfranogiad, rydym eisiau cynnwys a chydweithio gyda phobl yn y ffordd sy'n fwyaf perthnasol ac ystyrlon iddynt hwy ac felly byddwn yn gofyn am eu barn drwy nifer o ddulliau gwahanol.

Byddwn yn annog unrhyw bartïon â diddordeb i ymateb i'r ymgynghoriad.

Goblygiadau Ariannol – Costau ehangach cyfranogiad rhanddeiliaid ar gyfer y rhaglen gyfan, gan gynnwys cyhoeddiadau a digwyddiadau ymgynghori. Amcangyfrif o'r gwariant - £65,000.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau bod y polisïau lliniaru'r newid yn yr hinsawdd y mae'n eu datblygu yn destun her ac adolygiad annibynnol, allanol.

Ymateb: Derbyn.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn esbonio rôl ein corff cynghori, yr UKCCC. Yn ogystal â'i rôl yn cynghori ar y targedau a'r cyllidebau a bennir gennym, mae hefyd yn cynghori ar feysydd y mae angen gweithredu arnynt er mwyn cyflawni'r cyllidebau a bydd yn darparu adolygiad arbenigol, annibynnol o'n cynnydd ar bob cyllideb.

Mae'r UKCCC yn cynnwys detholiad trawsbynciol o arbenigwyr o feysydd gwyddonol ac mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi ei gyngor arbenigol annibynnol wrth drosglwyddo i economi carbon isel. Fel y corff cynghori ar gyfer Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, gall yr UKCCC roi cyngor inni yn seiliedig ar ein pwerau datganoledig penodol sy'n seiliedig ar y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd ar hyd a lled y DU.

Yn ogystal ag adolygiad yr UKCCC, fel yr esbonnir yn fy ymateb i argymhelliad 3 uchod, byddwn hefyd yn ymgynghori ar ein syniadau ar gyfer gweithredu hyd at 2030 yr haf hwn.

Goblygiadau Ariannol – Mae'r UKCCC yn cael ei gyd-ariannu gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

Mae pob un ohonynt yn ddarostyngedig i Goncordat Deddf Newid Hinsawdd 2008, a thrwy hynny cytunwyd i 'gyllideb graidd' UKCCC gael ei rhannu rhwng BEIS/Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Mae cyllideb graidd UKCCC yn cynnwys costau'r dyletswyddau statudol y mae'n ofynnol iddo eu cyflawni o dan y Ddeddf; a rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer cyflawni'r ceisiadau a wneir o dan y ddyletswydd i ddarparu cyngor ychwanegol ar gais. Byddai'r argymhelliad eisoes yn rhan o'n gwaith presennol gyda'r UKCCC.

Fel y dangosir yn Argymhelliad 3, mae gwariant amcangyfrifedig o £65,000 ar gyfer digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am yr hyn y cred y dylai fod yn ofynion Cynllun Masnachu Allyriadau newydd yr UE.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Mae cysylltiad anorfod rhwng y trefniadau newydd ar gyfer lleihau allyriadau o osodiadau y mae'n ofynnol iddynt gyfranogi yng Nghynllun Masnachu Allyriadau yr UE a'r trafodaethau ar bartneriaeth economaidd y DU gyda'r UE yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried nodweddion allweddol polisi newydd posibl, sy'n cael ei fireinio ac a fydd yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth i safbwynt negodi y DU/UE gael ei ddatrys.

Dylid nodi hefyd bod hyn yn un o'r 24 maes polisi sy'n destun trafodaeth fwy manwl yn awr rhwng pedair gweinyddiaeth y DU er mwyn trafod a oes angen unrhyw drefniadau fframwaith cyffredin deddfwriaethol, yn rhannol neu yn eu cyfanrwydd.

Diben craidd unrhyw bolisi newydd yw lleihau allyriadau o osodiadau diwydiannol a'r sector pŵer, a oedd, yn 2017, yn gyfrifol am tua 57% o'r holl allyriadau yng Nghymru.

Y materion allweddol yr ydym yn eu hystyried mewn cysylltiad â systemau masnachu yw:

- Uchelgais – bydd angen inni sicrhau bod ein huchelgais yn cyfrannu'n briodol at y trywydd lleihau allyriadau a bennir yn fuan fel rheoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

- Cwmpas – Ar hyn o bryd mae cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS) yn cwmpasu pŵer a diwydiant, ond efallai y byddwn yn ystyried hyblygrwydd er mwyn diwygio neu ehangu'r cwmpas yn y dyfodol pe byddai hynny'n fanteisiol er mwyn cyflawni nodau polisi.

- Gwelliannau – efallai y byddwn yn ystyried gwella rhai elfennau o'r EU ETS mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol, megis cyrhaeddiad a chwmpas, neu gyflwyno mwy o gymesuredd wrth fonitro ac adrodd ar feichiau. Mae'n rhaid cydbwyso'r gwahaniaethau hyn yn erbyn y gallu i alinio neu gysylltu â'r EU ETS neu systemau masnachu rhyngwladol eraill.

- Costau – rydym yn ystyried effaith pris carbon ar unrhyw systemau, a goblygiadau dylunio systemau o'r fath o fewn cymhwysedd datganoledig.

- Cysylltu - byddwn yn ystyried manteision ac anfanteision cysylltu â chynlluniau masnachu eraill, gan gynnwys hyblygrwydd ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

- Natur Gystadleuol Busnesau – effaith unrhyw gynllun ar natur gystadleuol busnesau yng Nghymru, materion yn ymwneud â Gollyngiadau Carbon a'r gallu i elwa o fentrau ar gyfer trosglwyddo i dechnolegau carbon isel.

- Hyblygrwydd – er enghraifft, efallai y bydd buddiannau sylweddol o gael marchnad fwy ac felly gallai fod yn fuddiol cysylltu neu gynyddu'r cwmpas. Fodd bynnag, mae'n rhaid gwrthbwyso manteision cysylltu yn erbyn llai o hyblygrwydd ar gyfer gwahaniaethau. Bydd dulliau technegol eraill o wella hyblygrwydd y farchnad yn cael eu hystyried hefyd.

- Llywodraethu - mae angen strwythur llywodraethu cadarn er mwyn pennu rheolau'r cynllun, nodi'r gofynion monitro o ran dilysu ac adrodd, penderfynu ar lefel orfodi briodol a rheoli prosesau datrys anghydfodau.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru rannu gyda'r Pwyllgor hwn ddadansoddiad Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd o effaith ymadael â'r UE ar gyllidebau, targedau a pholisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r UKCCC wedi cyhoeddi tri darn o gyngor sy'n berthnasol i'r argymhelliad hwn.

Ym mis Hydref 2016 cyhoeddodd UKCCC asesiad ar lefel y DU o oblygiadau Brexit i bolisi hinsawdd y DU[1]. Er nad yw'r adroddiad hwn yn sôn yn benodol am Gymru, mae'n pwysleisio'r meysydd sydd mewn perygl o brofi bwlch polisi yn absenoldeb trefniadau domestig newydd i lywio camau gweithredu ar yr hinsawdd ar ôl gadael Ewrop. Mae hefyd yn nodi enghreifftiau pan nad yw cyfreithiau presennol Ewrop yn ysgogi datgarboneiddio, er enghraifft yn y sector amaethyddol, sy'n awgrymu cyfle i integreiddio dulliau lliniaru newid yn yr hinsawdd a'u mabwysiadu mewn cynlluniau yn y dyfodol yng Nghymru.

Ar 13 Ebrill 2017 cyhoeddodd y Pwyllgor ar y Newid Hinsawdd ei gyngor ar ddylunio targedau carbon Cymru[2], a oedd yn seiliedig ar gais cyhoeddus am dystiolaeth. Mae'r adroddiad yn asesu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio yng Nghymru, mae'n pwysleisio'r materion i'w hystyried wrth bennu targedau carbon Cymru ac mae'n argymell yr egwyddorion allweddol ar gyfer dylunio targedau carbon i Gymru.

Ar 19 Rhagfyr 2017, mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru am gyngor annibynnol, roedd adroddiad pellach[3] gan yr UKCCC yn darparu cyngor ar y lefel y dylid pennu targedau carbon dros dro Cymru a chyllidebau carbon Cymru.

Wrth i'r sefyllfa ddatblygu, efallai y byddwn yn gofyn am gyngor pellach gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd a bydd hyn, sy'n arferol ar gyfer unrhyw gyngor a roddir gan UKCCC i Lywodraeth Cymru, yn cael ei gyhoeddi ar eu gwefan.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

[1] https://www.theccc.org.uk/publication/meeting-carbon-budgets-implications-of-brexit-for-uk-climate-policy/

[2] https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/Welsh-Carbon-Targets-Committee-on-Climate-Change-April-2017.pdf

[3] https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/CCC-Building-a-low-carbon-economy-in-Wales-Setting-Welsh-climate-targets.pdf

Argymhelliad 7

Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at "ystod o fesurau' a fydd yn cyfrannu at gyflawni ei dyhead plannu hirdymor, ond y bydd angen amser arno i symud ymlaen. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am bob un o'r mesurau hyn, gan gynnwys beth ydynt, y plannu amcangyfrifedig a fydd yn deillio o bob un ohonynt, a'r amserlen ar gyfer pryd y bydd pob mesur yn cyflawni'r plannu amcangyfrifedig.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Mae Gweinidog yr Amgylchedd wedi cydnabod mai dyma yw un o'i phrif flaenoriaethau. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygiadau ar ôl Brexit sy'n ceisio diddymu'r rhwystrau rhwng amaethyddiaeth a choedwigaeth. Rydym yn gweithio gydag amrediad o randdeiliaid gwahanol, gan gynnwys undebau ffermwyr, cyrff amgylcheddol a chynrychiolwyr coedwigaeth er mwyn gwneud defnydd cynaliadwy o'r tir ar ôl Brexit a bydd hyn yn cynnwys datblygu cynigion ar gyfer sut i gyflawni ein huchelgeisiau plannu yn yr hirdymor.

Lansiwyd y strategaeth goedwigaeth Coetiroedd Gwell i Gymru, ar ei newydd wedd ar 26 Mehefin ac mae'n cynnwys manylion am sut rydym yn bwriadu cyflawni ei nodau yn yr hanner can mlynedd nesaf. Mae i'w gweld drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

https://beta.llyw.cymru/coetiroedd-i-gymru-strategaeth

Mae Glastir - Creu Coetir yn darparu cymorth ar gyfer creu coetiroedd yng Nghymru. Daw'r cyllid ar gyfer Glastir - Creu Coetir o'r Rhaglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig. Yn sgil Brexit bydd y Rhaglen hon yn dod i ben ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i drafod yr opsiynau i gefnogi'r dulliau cynaliadwy o reoli ein hadnoddau naturiol yn y dyfodol.

Bydd datblygu Datganiadau Ardal a datblygu dulliau cyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol yn lleol yn darparu cyfle i ymgorffori'r Map Cyfleoedd Coetir mewn dulliau cyflawni a phenderfyniadau lleol a wneir gan dirfeddianwyr a rheoleiddwyr fel ei gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd datganiadau yn rhoi arwyddion clir yn lleol ynglŷn â lle y dylid creu coetir newydd.

Bydd gan Ddatganiadau Ardal gysylltiad cryf gyda threfniadau cynllunio lleol ac, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn disgwyl i Fyrddau Gwasanaeth Lleol ystyried y cyfleoedd i greu coetiroedd newydd wrth iddynt gyfrannu at ddatblygiad cynllunio'r defnydd a wneir o dir yn eu hardaloedd eu hunain.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i darged cenedlaethol o 20 y cant o orchudd canopi coed trefol.

Ymateb: Gwrthod.

Mae targed unigol yn annhebygol o gyfrannu at ddatblygu ein polisïau neu gyflawni ein nodau creu coetir. Mae pob ardal drefol yng Nghymru yn wahanol ac mae ganddynt anghenion a blaenoriaethau gwahanol. Y broses o lunio Cynlluniau Llesiant Lleol a Datganiadau Ardal, cynnwys Byrddau Gwasanaeth Lleol wrth wneud penderfyniadau, yw'r dull a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Amgylchedd Cymru fel y dull o gyflawni targedau. Byddai pennu nod yn rhagfarnu'r broses leol o wneud penderfyniadau a ragwelir gan y ddeddfwriaeth hon.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai math o ddangosydd cyflawni ar gyfer lleoliadau penodol fod ar gael ar gyfer y rhai sy'n llunio Cynlluniau Llesiant Lleol. Felly, rydym yn cefnogi gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i fesur brigdwf a byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o fonitro newidiadau i frigdwf o'r sylfaen a sefydlwyd yn yr adroddiad ar frigdwf, '*Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru'.*

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol i ehangu'r defnydd o'r offeryn Eco iTree ar gyfer monitro coed trefol a choetiroedd mewn ac o amgylch trefi.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi yn flynyddol wybodaeth am gyfraddau plannu yng Nghymru a'r mathau o goed sy'n cael eu plannu.

Ymateb: Derbyn.

Cyhoeddir gwybodaeth am gyfraddau plannu coed yng Nghymru a'r mathau o goed sy'n cael eu plannu yn flynyddol gan y Comisiwn Coedwigaeth/Forest Research ac mae ar gael ar-lein ar eu gwefan: https://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-7aqknx

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am Fforwm Newid Hinsawdd y Diwydiant Amaeth, gan gynnwys ei aelodaeth, ei gylch gorchwyl, a manylion am ei gyfarfodydd.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r fforwm hwn wedi darparu, a bydd yn parhau i ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth i Lywodraeth Cymru. Defnyddir yr allbwn o'r grŵp hwn i helpu i ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth am leihau Nwyon Tŷ Gwydr ar draws y sectorau amaethyddol ac, yn ei dro, fe'i defnyddir i helpu i lywio gwydnwch economaidd yn y dyfodol a chynlluniau nwyddau cyhoeddus, sy'n cael eu cynnig fel rhan o'r polisi rheoli tir yn y dyfodol i Gymru.

Mae Fforwm Newid Hinsawdd y Diwydiant Amaethyddol (AICCF) yn cynnwys nifer o gyrff sy'n cynrychioli amaethyddiaeth, coedwigaeth, sgiliau a hyfforddiant a safbwyntiau academaidd. Mae'r rhestr lawn yn cynnwys Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru), Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA), Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW), Hybu Cig Cymru (HCC), Amaeth Cymru, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), LANTRA, Cyswllt Ffermio, Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth (Canolfan Ymchwil Pwllperian), Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol (NSA), Defra, Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (CONFOR) yn ogystal â ffermwyr a rheolwyr tir unigol.

Mae'r Cylch Gorchwyl fel a ganlyn;

1. Ysgogi, cydlynu a monitro datblygiad cyffredinol Cynllun Newid yn yr Hinsawdd y Diwydiant gyda chynllun Strategol Amaeth Cymru (sy'n cael ei ddatblygu) a'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid.
2. Hyrwyddo a gweithredu fel un llais ar gyfer yr agenda polisi newid hinsawdd Amaethyddol a'i gynllun gweithredu dilynol.
3. Bydd yn ofynnol i aelodau'r grŵp hwn ddarparu naratif a thystiolaeth ar gyfer eu meysydd arbenigol perthnasol pan fydd hynny'n briodol.
4. Asesu a datblygu cynllun rheoli risgiau a'i adolygu'n barhaus.
5. Datblygu cynllun cyfathrebu a chyfathrebu â rhanddeiliaid yn unol â strategaeth gyfathrebu Amaeth Cymru.
6. Monitro cynnydd wrth weithio gyda chynllun olynol fframwaith amgylcheddol Monitro Glastir, prosiect Climart Smart Agriculture, a thîm datgarboneiddio Llywodraeth Cymru i gefnogi a chynghori os bydd angen i sicrhau rhaglen fonitro gadarn ar gyfer lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn y sector amaethyddiaeth.
7. Sicrhau bod cyfleoedd a chyfranogiad cyfartal yn cael eu hystyried a'u mabwysiadu yn holl weithgarwch y prosiect.
8. Sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gamau gweithredu Newid yn yr Hinsawdd ar draws y meysydd gwaith perthnasol.
9. Nodi a chofnodi'r holl gamau gweithredu trawsbynciol a gynhelir yng ngweithgareddau Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol - Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gynnull y grŵp hwn. Ystyrir y goblygiadau ar gyfer ymgorffori'r gwaith hwn wrth gynllunio polisïau yn y dyfodol, ochr yn ochr â'r holl dystiolaeth berthnasol arall ar ôl cynnal ymgyngoriadau.

Argymhelliad 11

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddaru'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar gynnydd wrth fynd i'r afael â nifer ac amlder digwyddiadau llygredd amaethyddol.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth frys yn awr i'r camau gweithredu sydd eu hangen yn y tymor byr yn dilyn nifer a maint y digwyddiadau llygredd amaethyddol diweddar.

Er mwyn helpu i lywio'r dull gweithredu, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad llawn o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Barthau Perygl Nitradau ac argymhellion pellach gan randdeiliaid ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei Datganiad Ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 13 Rhagfyr 2017 ei bod yn dymuno gweld dull gweithredu Cymru gyfan, sy'n cydbwyso mesurau rheoliadol a chamau gweithredu gwirfoddol.

Dyrannwyd cyllid ychwanegol eisoes i Cyfoeth Naturiol Cymru i ariannu swyddogion maes a fydd yn gweithio ar lawr gwlad, yn ymweld â ffermydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ddarparu cyngor amserol ac i gymryd camau gorfodi pan fydd angen camau o'r fath.

Yn ogystal, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion gwledig yn ymgynghori ar hyn o bryd ar raglen rheoli tir newydd i gefnogi ffermwyr Cymru ôl-Brexit. Mae'r cynigion yn amlinellu y dylai rheoleiddio priodol fod yn sail i ddarparu cymorth i reolwyr tir. Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn yr Hydref yn nodi rhagor o fanylion am welliannau rheoleiddiol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 12

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gynllunio yng nghyd-destun y cysyniad o "enillion amgylcheddol net".

Ymateb: Derbyn.

Defnyddir y term 'enillion amgylcheddol net yng Nghynllun Amgylcheddol 25 mlynedd Defra ar gyfer datblygiadau newydd. Mae'n nodi: '*they want to establish strategic, flexible and locally tailored approaches that recognise the relationship between the quality of the environment and development*' ac '*want to expand the net gain approaches used for biodiversity to include wider natural capital benefits, such as flood protection, recreation and improved water and air quality*' (t33). Fodd bynnag, nid yw'r dull y mae'n bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni hyn yn glir eto.

Mae polisi cynllunio Cymru yn defnyddio'r ymadrodd '*budd net ar gyfer bioamrywiaeth*. Cyflwynir y cysyniad hwn ym mharagraff 5.46 ymgynghoriad drafft Polisi Cynllunio Cymru, sy'n datgan "…*dylai datblygu gynnig budd net i fioamrywiaeth, ac yn y man lleiaf, heb unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol*." Mae Nodyn Cyngor Technegol 5 'Cynllunio a Chadwraeth Natur', a gyhoeddwyd yn 2009, yn datgan yr un egwyddor.

Mae '*Budd net ar gyfer bioamrywiaeth'* yn debyg i'r ymadrodd '*enillion amgylcheddol net'*. Fodd bynnag, yng Nghymru mae gennym ddyletswydd o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i *'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth…ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.* Felly, mae dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o *'fudd net ar gyfer bioamrywiaeth'* wedi'i siapio gan y gofyniad hwn.

Mae ymagwedd gyffredinol Llywodraeth Cymru at enillion / budd net yn parhau i ddatblygu. Y cyngor diweddaraf yw bod cynnal cynefinoedd presennol yn cael ei ystyried ar y cyfan yn gydymffurfiaeth â Deddf yr Amgylchedd yn unig, yn hytrach na chlirio safleoedd ac ail-blannu, a dylai dull gweithredu budd net ystyried ansawdd cynefinoedd yn ogystal â nifer.

Bydd dull gweithredu budd net hefyd yn ystyried gwerth y seilwaith gwyrdd megis coed, gwrychoedd, toeon gwyrdd a systemau draenio cynaliadwy. Gall y rhain gyfrannu nid yn unig i gynnal a gwella bioamrywiaeth a gwella gwydnwch ecosystemau, ond maent hefyd yn darparu buddiannau a gwasanaethau llesiant allweddol yn nhermau ansawdd aer gwell, rheoli llifogydd, puro dŵr, llai o lygredd sŵn a lliniaru newid yn yr hinsawdd. Mae ymgynghoriad drafft Polisi Cynllunio Cymru yn datgan "*Dylid manteisio'n llawn ar gyfleoedd i wella ansawdd yr amgylchedd adeiledig drwy gynnwys seilwaith gwyrdd mewn gwaith datblygu drwy ddewis lleoliadau priodol a defnyddio dylunio creadigol*" (paragraff 5.69). Mae cynyddu seilwaith gwyrdd yn elfen allweddol o'n blaenoriaethau cenedlaethol o gyflawni datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, fel y nodir yn ein Polisi Adnoddau Naturiol (2017).

Roedd ymgynghoriad drafft Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn cyfeirio at yr angen i fonitro enillion neu golledion net bioamrywiaeth. Diben hyn yw ei gwneud yn ofynnol i rywogaethau a chynefinoedd allweddol gael eu monitro er mwyn dangos y tueddiadau, a dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael i wneud hynny.

Fel gyda phob penderfyniad cynllunio, bydd pob cais yn cael ei ystyried ar ei deilyngdod ei hun, a bydd y cydbwysedd o ffactorau yn amrywio yn ôl amgylchiadau penodol pob cais.

Daeth cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus Polisi Cynllunio Cymru i ben ar 18 Mai, ac mae ymatebion yr ymgynghoriad yn cael eu casglu a'u hystyried yn awr. Felly bydd y dull gweithredu ar gyfer enillion / budd net yn parhau i gael ei ddatblygu yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dull gweithredu sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru a amlinellir uchod. Bydd y sefyllfa swyddogol yn cael ei chadarnhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 13

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth adolygu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn 6 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai'r adolygiad gynnwys effaith y ddeddfwriaeth ar lefelau teithio llesol ac unrhyw wersi a ddysgwyd mewn perthynas â gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer adolygu'r ddeddfwriaeth. Yn Adran 11, mae'n nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad o weithrediad y Ddeddf hon, erbyn diwedd cyfnod o 5 mlynedd fan bellaf, yn dechrau yn syth ar ôl diwedd y cyfnod sy'n cael ei nodi yn adran 4(6) (a), [sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Mapiau Rhwydwaith Integredig].

Cyflwynwyd y Mapiau Rhwydwaith Integredig ym mis Tachwedd 2017, sy'n golygu bod y Ddeddf yn rhagweld y cynhelir yr adolygiad ym mis Tachwedd 2022. Gwnaed y ddarpariaeth gyffredinol i gydnabod y bydd effaith y Ddeddf ond yn dechrau ffrwyth pan fydd y rhwydweithiau wedi'u cynllunio a'r broses gyflawni wedi dechrau.

Mae Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi cynnal eu proses Craffu ar ôl Deddfu ar y Ddeddf ac wedi cyhoeddi ei argymhellion. Bydd y Llywodraeth yn ymateb i'r argymhellion ym mis Gorffennaf 2018.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru roi asesiadau carbon Llywodraeth Cymru o brosiect ffordd liniaru'r M4 i'r Pwyllgor ac unrhyw asesiadau carbon a wnaed ar gyfer cynlluniau gwella priffyrdd yr A487 a'r A470. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth am y graddau y mae swyddogion yn ei hadran wedi bod yn gysylltiedig â datblygu mesurau lliniaru a geir yn yr asesiadau carbon hyn.

Ymateb: Derbyn.

Mae allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r Prosiect M4 wedi'u hystyried yn ofalus yng nghyd-destun gofynion polisi a deddfu perthnasol gan ddefnyddio dulliau modelu manwl iawn. Mae'r asesiad yn awgrymu y byddai cyfanswm allyriadau carbon blynyddol defnyddwyr ar rwydwaith priffyrdd de Cymru yn lleihau o ganlyniad i liniaru amodau traffig stopio-cychwyn a lleihau hyd teithiau ar y rhan newydd o'r draffordd, sydd 2.8 cilomedr yn llai.

Cyflwynwyd Adroddiad Carbon i'r Ymchwiliad Cyhoeddus i Brosiect yr M4 a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017 (sydd ar gael yn atodiad 2.1 – 2.4 yn dechrau ar dudalen 55 yma: http://bailey.persona-pi.com/Public-Inquiries/M4-Newport/C%20-%20Core%20Documents/Environmental-Statement/Appendix-2-1-to-2-4.pdf). Derbyniodd yr Ymchwiliad dystiolaeth hefyd ar fanylion yr asesiad hwn gan aelod o dîm y prosiect sydd ar gael yma http://m4-newport.persona-pi.com/1-proofs-of-evidence. Cafodd y gwaith hwn ei oruchwylio'n uniongyrchol gan Swyddogion Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Mae Swyddogion Datgarboneiddio yn gyfrifol am gydlynu ar draws y Llywodraeth y camau gweithredu a gymerir i leihau allyriadau gan gynnwys goruchwylio'r Strwythur Llywodraethu Datgarboneiddio.

Mae Swyddogion Trafnidiaeth yn arwain y gwaith o ddatblygu mesurau lliniaru mewn prosiectau a rhaglenni penodol yn ein hardal. Wrth ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel, mae Swyddogion Trafnidiaeth yn gweithio gyda Swyddogion Datgarboneiddio i edrych ar gamau gweithredu strategol i leihau allyriadau.

Mae'r broses o ddatblygu cynlluniau sy'n darparu cyfleoedd goddiweddyd ar yr A487 a'r A470 er mwyn gwella diogelwch ac amseroedd teithio ar gam cynnar. Ar ôl i'r cynlluniau gael eu datblygu i'r cam dylunio ac adeiladu manwl drwy broses Canllaw Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) cynhelir yr asesiadau priodol. Gall gwelliannau i fannau sy'n achosi probelemau ar briffyrdd chwarae rhan mewn lleihau allyriadau net rhwydweithiau trafnidiaeth ochr yn ochr â gwelliannau technolegol megis cerbydau allyriadau isel iawn a dim allyriadau.

Dangosir hyn yn 'Carbon Routemap' Highways England (http://assets.highways.gov.uk/specialist-information/knowledge-compendium/2013-2014-knowledge-programme/HACR_Infographic.pdf).

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth neu fodelu sy'n cefnogi ei sefyllfa y bydd gwella llif y traffig yn lleihau allyriadau ac yn gwella ansawdd yr aer.

Ymateb: Derbyn.

Mae cynlluniau gwella mannau sy'n achosi problemau yn lleihau traffig mewn ardaloedd â phoblogaethau dwys yn ogystal â lleihau allyriadau a gwella ansawdd yr aer. Er enghraifft, byddai'r Prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yn lleihau traffig ar hyd yr M4 presennol ac yn gwella ansawdd yr aer i tua 30,000 o gartrefi. Cyflwynwyd tystiolaeth gan arbenigwyr ansawdd aer, sy'n seiliedig ar waith modelu manwl, i'r Ymchwiliad Cyhoeddus a ddaeth i ben yn ddiweddar ar Brosiect yr M4, ac mae ar gael yma : http://bailey.persona-pi.com/Public-Inquiries/M4-Newport/C%20-%20Core%20Documents/1.%20Proofs/1.12.2%20Michael%20Bull%20Summary.pdf.

Cyflwynir tystiolaeth bellach bod gwella llif traffig yn lleihau allyriadau ac yn gwella ansawdd aer yn Adroddiad Arweiniad ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar Fynd i'r Afael â Chynodiadau Nitrogen Deuocsid ar Ymylon Ffyrdd yng Nghymru, sydd ar gael drwy'r ddolen: https://beta.llyw.cymru/mynd-ir-afael-chrynodiadau-nitrogen-deuocsid-ar-ymylon-ffyrdd-yng-nghymru?_ga=2.75026903.411617826.1531045430-101011950.1470909093

Arweiniodd y gwaith modelu hwn at roi cyfyngiadau cyflymder 50 mya ar waith yn ddiweddar ar bum lleoliad ar y gefnffordd sy'n uwch na lefel terfyn y Gyfarwyddeb ar gyfer NO2:
i. A494 ar Lannau Dyfrdwy;
II. A483 ger Wrecsam;
III. M4 rhwng cyffyrdd 41 a 42 (Port Talbot);
IV. M4 rhwng cyffyrdd 25 a 26 (Casnewydd); a
V. A470 rhwng Upper Boat a Phontypridd.

Mae'r ymchwiliadau a'r gwaith modelu a wnaed hyd yn hyn wedi dangos y gallai gweithredu terfynau cyflymder 50 mya ym mhob un o'r lleoliadau arwain at welliannau ar unwaith i ansawdd yr aer a sicrhau y cydymffurfir â chyfarwyddebau'r UE.

Goblygiadau ariannol - Dim. Telir y costau o sefydlu a chynnal y Grŵp o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 16

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth gyda'r Pwyllgor hwn am y grŵp cynghori y mae'n ei sefydlu i ystyried sut y gellir defnyddio ffynonellau cyllid a chefnogaeth amgen er mwyn hwyluso rhaglen helaeth o waith ôl-osod.

Ymateb: Derbyn.

Cyfarfu'r Grŵp Cynghori newydd ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru am y tro cyntaf ar 14 Mai ac mae'n bwriadu cwrdd yn fisol. Ei rôl yw cynghori Gweinidogion ar ddatblygu rhaglen o gamau gweithredu i ôl-osod pob eiddo preswyl erbyn 2050 er mwyn cyflawni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Cadeirydd y Grŵp yw Chris Jofeh o Arup ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o randdeiliaid allweddol a fydd yn ein helpu i gyflawni'r rhaglen hon, gan gynnwys landlordiaid, benthycwyr, y byd academaidd a chyrff cynrychioliadol megis y Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB), National Energy Action Cymru (NEA) a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI). Bydd gwaith y Grŵp yn edrych ar amrediad o faterion gwahanol sy'n gysylltiedig â datblygu rhaglen, gan gynnwys y trefniadau cyllido.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 17

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth gyda'r Pwyllgor am yr arolwg tystiolaeth o amodau tai ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r arolwg.

Ymateb: Derbyn.

Mae Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS) 2017-18 yn ffurfio rhan o'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai (HCEP). Cynhaliwyd gwaith maes ar WHCS 2017-18 rhwng Awst 2017 ac Ebrill 2018. Mae'r data yn cael eu prosesu a'u modelu yn awr. Datganwyd y byddai'r canlyniadau pennawd yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2018 yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Cyhoeddir dadansoddiad manwl ar ddechrau 2019 hefyd o'r amcangyfrifon Tlodi Tanwydd canlyniadol.

Defnyddir canlyniadau o'r arolwg i lywio cyfeiriad ac adnoddau polisi ar gyfer gwella amodau byw pobl yng Nghymru, datgarboneiddio'r stoc dai yng Nghymru a llywio trafodaethau gyda rhanddeiliaid ynglŷn â chamau gweithredu i drechu tlodi tanwydd yng Nghymru yn y dyfodol a datblygu cynllun tlodi tanwydd newydd. Mae'n bwysig sicrhau bod dull cydgysylltiedig ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn.

Goblygiadau Ariannol – Dim ar hyn o bryd; Mae'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai yn cael ei hariannu tan ddiwedd mis Mawrth 2019. Bydd angen gwneud penderfyniad yn y dyfodol agos i ymestyn y Rhaglen, er mwyn parhau i ddefnyddio'r data.

Argymhelliad 18

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu rhagor o wybodaeth gyda'r Pwyllgor ynghylch pryd y disgwylir i'r adolygiad o Ran L gael ei gwblhau. At hynny, dylai Ysgrifennydd y Cabinet rannu gyda'r Pwyllgor y gwaith a wnaethpwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru i nodi mai dim ond manwl gyweirio'r safonau adeiladu presennol sydd ei angen i sicrhau ynni bron yn sero.

Ymateb: Derbyn.

Mae gwaith cwmpasu ar gyfer yr adolygiad o Ran L (Arbed tanwydd ac ynni) y Rheoliadau Adeiladu wedi dechrau'r mis hwn. Bydd yr astudiaeth gwmpasu yn llywio'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig ar gyfer hanner cyntaf 2019.

Rydym yn aros am y dadansoddiad terfynol o'n safonau presennol (Rhan L 2015) i gyflawni'r 'lefelau cost uchaf'. Cynhelir dadansoddiad ar gyfer pob gweinyddiaeth gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am ymateb ar ran y DU, fel aelod-wladwriaeth. Mae ein barn lle'r ydym yn rhagweld y bydd angen 'mireinio'r' safonau presennol er mwyn cyflawni ynni bron yn sero (NZE), yn seiliedig ar yr adroddiad cynharaf ar y costau gorau a'r gwelliannau dilynol a wnaed yn 2014. Bwriedir i adolygiad 2017 gyflawni NZE, fel isafswm, fodd bynnag, byddaf yn ystyried pennu safonau llymach os na fydd NZE yn cyflawni ein huchelgais o ran ynni.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 19

Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amserlen ar gyfer ei hadolygiad o gyflenwad tai fforddiadwy. Yn benodol, dylai egluro sut y mae'n bwriadu gweithredu ar werthuso dadansoddiad o effaith symud i ddarparu cartrefi di-garbon erbyn 2020, o gofio y disgwylir i'r grŵp gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Ebrill 2019.

Ymateb: Derbyn.

Lansiwyd adolygiad gennym o'r cyflenwad tai fforddiadwy ar 23 Ebrill eleni, ac rydym wedi penodi panel a chadeirydd annibynnol i gynnal yr adolygiad. Mae cylch gwaith yr adolygiad yn eang, ac mae'r panel wedi dewis y ffrydiau gwaith y mae'n dymuno mynd ar eu trywydd. Mae'r rhain yn cynnwys ffrydiau gwaith sy'n edrych ar gyfraddau grantiau, polisi rhent, yr angen am dai, dulliau adeiladu modern a'r defnydd o dir y sector cyhoeddus.

Bydd symud tuag at gartrefi di-garbon yn nodwedd amlwg yn y ffrydiau gwaith a nodwyd gan y grŵp. Mae'r cadeirydd wedi awgrymu y bydd datgarboneiddio yn bwnc a fydd yn amlwg ym mhob elfen o waith y panel. Felly, rydym yn rhagweld y bydd rhai o'r argymhellion yn adlewyrchu hyn.

Bydd argymhellion y grŵp yn ystod gwanwyn 2019 yn bwydo i mewn i'r gwaith ehangach sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer cyflawni cartrefi di-garbon.

Goblygiadau ariannol – Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.